

## PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd yn COUNCIL CHAMBER, COUNTY HALL, RUTHIN AND BY VIDEO CONFERENCE, Dydd Iau, 29 Mehefin 2023 am 10.00 am.

### YN BRESENNOL

**Cynghorwyr** - Michelle Blakeley-Walker, Karen Edwards, Pauline Edwards, James Elson, Jon Harland, Alan James, Brian Jones, Merfyn Parry, Cheryl Williams a Huw Williams (Cadeirydd)

**Aelod Arweiniol**- Roedd Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant, y Cynghorydd Barry Mellor, yn bresennol ar gyfer eitem 6 ar y rhaglen ar wahoddiad y Pwyllgor.

**Arsylwyr** - Y Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones, a'r Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts.

### HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Economi a'r Amgylchedd (TW), Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol (AC) Rheolwr Gwastraff ac Ailgylchu (SL), Rheolwr Prosiect: Cynllunio Strategol (LR), Cydlynnydd Craffu (KE) a Gweinyddwyr Pwyllgorau (SJ a NH)

#### 1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Delyth Jones.

#### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

#### 3 PENODI IS-GADEIRYDD

Gofynnwyd am enwebiadau gan Aelodau ar gyfer penodi Is-Gadeirydd.

Cafodd y Cynghorydd Karen Edwards ei chynnig a'i eilio ar gyfer swydd yr Is-Gadeirydd. Ni chafwyd enwebiad arall ac felly -

**PENDERFYNWYD** - y dylid penodi'r Cynghorydd Karen Edwards yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau am y flwyddyn i ddod.

#### 4 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw eitemau brys gyda'r Cadeirydd na'r Cydlynnydd Craffu cyn dechrau'r cyfarfod.

## 5 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ddydd lau 4 Mai 2023.

### **Materion yn Codi -**

Holodd yr Aelodau os oedd dyddiad dechrau ar gyfer cyfarfod y Grŵp Tasg a Gorffen Llifogydd. Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro ar gyfer Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol wybod i'r Aelodau eu bod wrthi'n trefnu cyfarfodydd gyda Grwpiau Ardal yr Aelodau i ofyn am enwebiadau ar gyfer eu meysydd priodol.

**PENDERFYNWYD:** *yn amodol ar yr uchod, y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ddydd lau 4 Mai 2023 fel cofnod cywir.*

## 6 Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM BROSIECT AILFODELU'R GWASANAETH GWASTRAFF

Cyflwynodd Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant y wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect Ailfodelu Gwastraff i'r Aelodau.

Roedd y gwaith o gynllunio Gwasanaeth Casglu Gwastraff newydd ar y gweill ers blynnyddoedd ac roedd yn cael ei gyflwyno fel bod Sir Ddinbych yn gallu cyrraedd y targed statudol newydd o ailgylchu 70% o wastraff cartrefi a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd yn hanfodol bwysig bod y gwasanaeth newydd yn cael ei gyflwyno i gyfrannu at fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Rhagwelir y bydd y gwaith o adeiladu depo gwastraff newydd yn Ninbych wedi'i gwblhau erbyn diwedd hydref 2023 a byddai'r Gwasanaeth Gwastraff newydd yn cael ei gyflwyno o fis Mawrth 2024 (yn amodol ar gael y drwydded angenrheidiol gan Gyfoeth Naturiol Cymru i'n galluogi ni i weithredu pethau'n gyfreithlon yn y depo). Roedd manteision ariannol i gyflwyno'r Gwasanaeth Gwastraff newydd hefyd oherwydd bod costau casglu ailgylchu o finiau glas dan y gwasanaeth presennol wedi cynyddu'n sylweddol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: yr Economi a'r Amgylchedd fod yr adroddiad (a ddsbarthwyd ymlaen llaw) yn rhoi cyfle i Aelodau graffu ar y Polisi Casglu Gwastraff diwygiedig. Hefyd, mae'n cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am gyflwyno gwasanaeth Cynnyrch Hylendid Amsugdol newydd a'r newidiadau i aelwydydd ansafonol.

Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y Gwasanaeth Gwastraff presennol a'r Gwasanaeth Gwastraff newydd.

Cafodd aelodau wybod:

- Mai'r dyddiad cyflwyno a ragwelir ar gyfer y Gwasanaeth Gwastraff newydd yw mis Mawrth 2024. Fodd bynnag mae hyn yn amodol ar gael y drwydded angenrheidiol gan Gyfoeth Naturiol Cymru i weithredu'n gyfreithlon o'r depo.
- O hydref 2023 bydd y gwasanaeth cynnyrch hylendid amsugol newydd yn cael ei gyflwyno i ardal beilot, sef ardaloedd cod post LL16 / LL17. Bydd yr ardal hon yn cynnwys oddeutu 1,000 o danysgrifwyr, gan ddarparu cymysgedd o ardaloedd gwledig a threfol cyn cyflwyno'r gwasanaeth i'r sir gyfan pan fyddai'r newid i'r prif wasanaeth yn digwydd yn 2024.
- Roedd gan Sir Ddinbych nifer o aelwydydd sy'n derbyn 'gwasanaeth ansafonol' h.y. naill ai gwasanaeth cymunedol neu sachau. Roedd hyn oherwydd problemau mynediad i gerbydau neu ddiffyg lle i storio cynwysyddion. Roedd yr aelwydydd ansafonol yn Sir Ddinbych yn cael eu hadolygu.
- Byddai'r eitem ar y Model Gwasanaeth Gwastraff yn dod gerbron y Pwyllgor Craffu Cymunedau eto ym mis Hydref 2023 i drafod rhagor o fanylion am gyflwyno'r prif wasanaeth.

Roedd Aelodau eisoes wedi cael eglurhad manwl am y Gwasanaeth Gwastraff newydd, y cyflwyniad a'r gwasanaethau newydd fyddai'n cael eu hymgorffori ynddo, felly agorodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y drafodaeth i Aelodau, wedi cytuno â'r Cadeirydd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: yr Economi a'r Amgylchedd am y wybodaeth ddiweddaraf a chrosawodd gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor.

Gofynnodd yr Aelodau os oedd Swyddogion yn ymgysylltu â Chynghorau Tref, Dinas a Chymuned i ddangos sut y byddai'r bocsys troli newydd yn gweithio. Teimlwyd y byddai hyn yn helpu preswylwyr i ddeall pan fydd y gwasanaeth newydd yn cael ei gyflwyno. Dywedodd y Rheolwr Gwastraff ac Ailgyrchu wrth Aelodau fod yr eitem rhaglen am y Gwasanaeth Gwastraff wedi cael ei gynllunio ar gyfer cyfarfodydd pob Grŵp Ardal Aelodau ac yna byddai trafodaethau pellach yn cael eu cynnal gyda'r Tîm Prosiect. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol wrth Aelodau y byddent yn gweithio ar fanylion y gwaith ymgysylltu â Chynghorau Tref, Dinas a Chymuned a rhoi gwybod i Aelodau maes o law.

Holodd yr Aelodau am reolau a rheoliadau'r Gwasanaeth Gwastraff newydd a gofynnwyd a fyddai gorfodi cosb benodedig yn cael ei ddefnyddio os na fydd preswylwyr yn cydymffurfio. Gofynnodd yr Aelodau hefyd faint o rybuddion cosb a gyhoeddwyd dan y Model Gwasanaeth Gwastraff presennol. Dywedodd y Rheolwr Gwastraff ac Ailgyrchu mai ychydig iawn o rybuddion cosb a ddisbarthwyd dan y gwasanaeth presennol. Roedd pwyslais ar newid ymddygiad yn hytrach na dirwyon penodedig.

Ar y pwynt hwn, oedodd y Cadeirydd y cyfarfod fel bod y Rheolwr Prosiect: Cynllunio Strategol yn gallu ymuno â'r cyfarfod ar-lein.

Wrth fynd yn ei flaen, cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol at y cwestiwn blaenorol am orfodi. Dywedodd mai gorfodi oedd y dewis olaf, a'u bod yn canolbwyntio'n bennaf ar addysg ac ymgysylltu â phreswylwyr, fyddai'n parhau dan y Gwasanaeth Gwastraff newydd.

Cyfeiriodd Aelodau at baragraff 4.3 yr adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn ymwneud â pheilot y cynllun cynnyrch hylendid amsugol. Holodd yr Aelodau ai'r ardaloedd cod post a ddewiswyd ar gyfer y cynllun peilot oedd yr ardaloedd gorau ar gyfer dysgu cyn cyflwyno'r cynllun yn ehangach. Dywedodd y Rheolwr Gwastraff ac Ailgyrchu wrth Aelodau fod yr ardaloedd a ddewiswyd ar gyfer y cynllun peilot yn gymysgedd o ardaloedd trefol a gwledig. Eglurodd y Rheolwr Cynllunio hefyd mai ffactor arall dros ddewis y codau post hyn oedd oherwydd eu bod yn nes at Barc Adfer, ble byddai'r gwastraff yn cael ei waredu.

Gofynnodd Aelodau sut gallai preswylwyr wneud cais i fod yn rhan o'r cynllun peilot. Dywedodd y Rheolwr Cynllunio: Cynllunio Strategol fod negeseuon e-bost wedi cael eu hanfon at Gynghorau Tref ac y byddai gwybodaeth ar gael ar wefan Cyngor Sir Ddinbych, yn cynnwys y ffurflen gofrestru a thelerau ac amodau. Roedd taflenni gwybodaeth wedi cael eu hanfon i lyfrgelloedd a Siopau Un Alwad yn yr ardaloedd hynny.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad o ran pwy fyddai angen cofrestru am y Gwasanaeth Cynnyrch Hylendid Amsugol pan fydd wedi'i gyflwyno'n llawn. Er enghraifft, os oedd nain neu daid yn gofalu am wyrion unwaith yr wythnos a'u bod mewn clytiau, byddai gofyn iddynt gofrestru â'r gwasanaeth. Dywedodd y Rheolwr Cynllunio nad oedd y Gwasanaeth Cynnyrch Hylendid Amsugol ar agor i'r teulu ehangach ar hyn o bryd felly byddai'n dderbyniol i roi unrhyw Gynnyrch Hylendid Amsugol (niferoedd bychan) yn y bin du. Byddai hyn yn parhau i gael ei adolygu'n weithredol yn dilyn y cynllun peilot.

Cyfeiriodd yr Aelodau at y Gwasanaeth Casglu Batris newydd a holwyd pam nad oedd sôn am e-sigaréts tafladwy yn yr adroddiad. Dywedodd y Rheolwr Cynllunio fod trafodaethau ar y gweill i benderfynu a fyddent yn cael eu dosbarthu fel batris neu gynnyrch trydanol bychan.

Holodd yr Aelodau am gasgliadau dan y Gwasanaeth Gwastraff newydd ar gyfer ffyrdd preifat neu ffyrdd heb eu mabwysiadu ac os oedd unrhyw newidiadau. Dywedodd y Rheolwr Gwastraff ac Ailgyrchu y byddai'r Gwasanaeth newydd yn golygu cerbydau newydd a llwybrau newydd, a byddai hyn yn cael ei ail-werthuso er mwyn ymdrin â'r manau casglu mwyaf addas i breswylwyr.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am y wybodaeth ddiweddaraf gan gadarnhau ei bod yn bwysig iawn addysgu preswylwyr a Chynghorau Tref, Dinas a Chymuned am y newidiadau i'r Model Gwastraff ac Ailgyrchu.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Swyddogion a fyddai cyfle i ymweld â'r depo newydd yn y dyfodol. Cytunodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y gellid trefnu hyn.

Yn dilyn trafodaeth fanwl -

**PENDERFYNWYD:** *derbyn a nodi'r wybodaeth ddiweddaraf am Brosiect Ailfodelu'r Gwasanaeth Gwastraff.*

## **7 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO**

Arweiniodd y Cydlynnydd Craffu yr Aelodau trwy adroddiad Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Craffu Cymunedau (a ddsbarthwyd ymlaen llaw).

Roedd y cyfarfod nesaf wedi'i drefnu ar gyfer 7 Medi 2023, roedd dau eitem ar y rhaglen wedi'u cynnig.

- I. Ymgysylltiad â Fforwm Gofal Cymru, cyfle i drafod yr adroddiad cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Tachwedd ac
- II. Adolygiad o Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr.

Roedd Atodiad 2 yn cynnwys copi o'r Ffurflen Cynnig Aelodau. Anogwyd yr Aelodau i lenwi'r ffurflen gydag unrhyw eitemau yr oeddynt yn credu y dylid eu hystyried.

Atodiad 3 oedd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet petai'r Pwyllgor eisiau craffu ar unrhyw faterion sydd ar ddod.

Atodiad 4 i'r adroddiad oedd rhestr o gynrychiolwyr y Pwyllgor ar y Grwpiau Herio Gwasanaethau gwahanol. Wedi i'r Cynghorydd Pauline Edwards sefyll i lawr o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau, roedd angen cynrychiolydd newydd ar gyfer Grŵp Herio Gwasanaeth y Gwasanaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a'r Gwasanaethau Cefn Gwlad.

Roedd y Cynghorydd Jon Harland wedi mynegi diddordeb yn y Grŵp Herio Gwasanaeth hwn yn y gorffennol felly cafodd ei gynnig, ei eilio a'i benodi fel cynrychiolydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau.

### **PENDERFYNWYD:**

- (i) *Penodi'r Cynghorydd Jon Harland yn gynrychiolydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar Grŵp Herio Gwasanaeth y Gwasanaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a'r Gwasanaethau Cefn Gwlad a -*
- (ii) *Derbyn a nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.*

## **8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR**

Diolchwyd i'r Cynghorydd Karen Edwards am fynychu cyfarfod diweddar y gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad ar fyr rybudd.

Dywedodd y Cynghorydd Edwards wrth yr Aelodau fod y Grwpiau Herio Gwasanaethau yn addysgiadol iawn. Roedd y cyfarfodydd yn gyfle i Aelodau gael sgysiaid trylwyr â swyddogion a Phenaethiaid Gwasanaeth a gellid gofyn cwestiynau a chael ateb iddynt.

Roedd nodiadau camau gweithredu'r cyfarfod yn cael eu rhannu â'r rhai oedd yn bresennol a chytunwyd y byddai cynrychiolydd newydd y Grŵp Herio Gwasanaeth yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf.

Dywedodd y Cynghorydd James Elson fod cyfarfod o'r Grŵp Craffu Cyfalaf ar 7 Mehefin 2023 a byddant yn gofyn am gofnodion y cyfarfod ac yn adrodd yn ôl i'r Aelodau yn y cyfarfod nesaf ym mis Medi.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol wrth yr Aelodau fod dau Grŵp Herio Gwasanaethau wedi'u cynnal hyd yma ac roedd yn braf clywed bod Aelodau yn eu gweld yn fuddiol.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.50am